MEMORANDWM GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010

Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft mewn perthynas â thai a llywodraeth leol

Cyflwyniad

1. Mae'r Memorandwm hwn wedi ei baratoi a'i osod gerbron yn unol â Rheol Sefydlog (RhS) 22.14. Mae'n gosod y cefndir i'r darpariaethau yng Ngorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft y llywodraeth sydd wedi ei atodi ac a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hefyd yn egluro cwmpas y pŵer y gofynnir amdano.

2. Gwelir cyd-destun cyfansoddiadol y cais hwn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) ac ym mholisi Llywodraeth y DU a geir yn y Papur Gwyn “Trefn Lywodraethu Well i Gymru”. Mae adran 95 o Ddeddf 2006 yn rhoi'r pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i roi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu drwy gyfrwng Mesur Cynulliad ar Faterion penodedig. Caniateir ychwanegu materion at Feysydd yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caniateir i Fesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud drwy gyfrwng Deddf Senedd y DU, mewn perthynas â materion, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf 2006. Yn y memorandwm hwn cyfeirir at Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD).

3. Byddai'r GCD drafft yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol pellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Meysydd tai a llywodraeth leol (Meysydd 11 a 12 yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006). Bydd pwerau deddfwriaethol newydd mewn cysylltiad â'r materion penodedig yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru, Aelodau Cynulliad a Phwyllgorau Cynulliad i ddwyn cynigion gerbron ar gyfer deddfwriaeth ar ffurf Mesurau. Bydd y Mesurau yn ddarostyngedig i graffu trylwyr a chymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol. Yn Atodiad A atodir copi o Atodlen 5 sy'n dangos y cymhwysedd deddfwriaethol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ei

gaffael hyd yn hyn.

Y cyd-destun

4. Mae tai'n faes polisi sydd wedi ei ddatganoli a throsglwyddwyd swyddogaethau Gweinidogion mewn perthynas â thai (gydag eithriadau penodol) i'r Cynulliad Cenedlaethol pan ddaeth i fodolaeth, o dan adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. At hynny, mae swyddogaethau gweithredol ychwanegol mewn perthynas â thai wedi eu datganoli i Weinidogion Cymru mewn Deddfau Seneddol dilynol. Byddai'r GCD drafft yn darparu ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol dros feysydd y mae gan Weinidogion Cymru eisoes gymhwysedd gweithredol ynddynt. Byddai hyn yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol fod â rôl yn y gwaith o benderfynu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y meysydd polisi sydd wedi eu datganoli i Weinidogion Cymru ac yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnig deddfwriaeth a oedd yn cefnogi ei uchelgais o ran polisi. Cafodd y GCD drafft ei ddatblygu yn dilyn tynnu'n ôl GCD cynharach ynghylch Tai ("Gorchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2009"). Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU i beidio â bwrw ymlaen gyda GCD drafft 2009 wedi i Gyd-bwyllgor Senedd y DU ar Offerynnau Statudol fod yn ei ystyried. Roedd drafft 2009 yn canolbwyntio'n gulach ar waredu'r tir a ddelir neu a ddefnyddir at ddibenion tai gan landlord cymdeithasol. Cynhwysir y mater hwn yng nghwmpas ehangach y GCD drafft newydd.

5. Ers 2008 bu adolygiad llawn yn cael ei gynnal ar bolisi tai yng Nghymru. Yn ganolog iddo mae datblygu Strategaeth Dai Genedlaethol newydd. Bu i Lywodraeth y Cynulliad ymgynghori'n eang ar ffurf ddrafft ar y Strategaeth hon rhwng Ionawr a Mai 2009 a bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi'n gynnar yng Ngwanwyn 2010. Y weledigaeth yn y Strategaeth yw hybu dull o gyflenwi a rheoli tai a fydd yn helpu i greu dyfodol mwy cynaliadwy, gan wella drwy hynny ein cymunedau a bywydau unigolion. Mae nifer o ddatblygiadau polisi eraill hefyd yn cefnogi'r Strategaeth Dai newydd.

6. Mae rhaglen waith fanwl yn cael ei pharatoi ar draws y sector tai er mwyn rhoi ar waith gyfeiriad newydd i'r gwaith o gyflenwi tai fforddiadwy. Rhaglen waith yw hon sy'n ymateb i adroddiad yn 2008 gan grŵp adolygu, o dan arweinyddiaeth y cyn Weinidog Sue Essex, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, ar rymuso'r gwaith o gyflenwi tai fforddiadwy yng Nghymru (Adroddiad i'r Dirprwy Weinidog dros Dai gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tai Fforddiadwy - y cyfeirir ato'n gyffredin fel Adolygiad Essex) .

7. Mewn perthynas â digartrefedd ac yn dilyn ymgynghori eang â'r cyhoedd, lansiwyd Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng Ngorffennaf 2009. Yn y cynllun hwn nodir beth yw'r amcanion strategol a'r weledigaeth eangach ar gyfer lleihau digartrefedd yng Nghymru o 2009 i 2019. Yn arbennig, mae'r cynllun yn argymell adolygu'r

fframwaith statudol ar gyfer polisi digartrefedd yng Nghymru, gyda'r nod o sicrhau darpariaeth gynhwysfawr o ran gwasanaethau i bobl ddigartref.

8. Ar fater gweithgareddau cymorth sy'n gysylltiedig â thai bu i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori ar *Cefnogi Pobl - strategaeth cymorth sy'n gysylltiedig â thai* yng ngwanwyn 2009. Mae'r strategaeth ddrafft hon yn nodi beth yw ffocws cyfeiriad gweithgareddau cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn y dyfodol. Gweithgareddau yw'r rhain sydd wedi eu cynllunio i alluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu llety.

9. Mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr, ym Medi 2009 cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'r ddogfen *"Ar Lwybr Arall - Strategaeth Ddrafft ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr"* er mwyn ymgynghori arni.

Y fframwaith deddfwriaethol cyfredol

10. Datganolwyd eisoes i Weinidogion Cymru bwerau gweithredol a phwerau is-ddeddfwriaeth sylweddol ar draws ystod eang o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thai. Mae'r darpariaethau deddfwriaethol allweddol sy'n ymwneud â'r Gorchymyn drafft fel a ganlyn:

<u>Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960</u>

11. Mae'r Ddeddf hon yn ymdrin â thrwyddedu safleoedd carafannau, ac â darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

<u>Deddf Tai 1985</u>

12. Mae'r Ddeddf hon (ymhlith pethau eraill) yn disgrifio'r Awdurdodau Tai Lleol (Cynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol yw'r rhain yng Nghymru), a'u dyletswyddau. Mae'r Ddeddf hefyd yn ymdrin â darparu tai'n llety, gwaredu tir sy'n cael ei ddal at ddibenion tai, ac â'r cynllun Hawl i Brynu, ac mae'n diffinio tenantiaethau diogel.

<u>Deddf Cymdeithasau Tai 1985</u>

13. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi nifer o swyddogaethau cyffredinol, sy'n ymwneud â Chymdeithasau Tai, i Weinidogion Cymru.

<u>Deddf Tai 1988</u>

14. Mae'r Ddeddf hon yn llywodraethu llety ar rent gan gynnwys tenantiaethau sicr a roddir gan landlordiaid preifat (gan gynnwys cymdeithasau tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig). Mae hefyd yn deddfu mewn cysylltiad â chymdeithasau tai.

<u>Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992</u>

15. Gan y Ddeddf hon y disodlwyd y Tâl Cymunedol gan y Dreth Gyngor. Ceir pwerau is-ddeddfwriaeth sylweddol o dan y Ddeddf ac mae datganoli'r pwerau hyn yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau i wneud diwygiadau sylweddol i raglen y dreth gyngor.

Deddf Tai 1996

16. Mae'r Ddeddf hon yn ymdrin â chofrestru a rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gwaredu tir ganddynt, talu Grant Tai Cymdeithasol, ac â'r cynllun Hawl i Gaffael ar gyfer tenantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae Deddf 1996 hefyd yn ymdrin â dyraniadau tai cymdeithasol a digartrefedd. Mae gan Weinidogion Cymru eisoes bwerau gweithredol yn yr holl feysydd hyn.

Deddf Llywodraeth Leol 2000

17. Mae adran 93 o'r Ddeddf hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu grantiau i awdurdodau lleol i gyllido, ymhlith pethau eraill, wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

Deddf Digartrefedd 2002

18. Mae'r Ddeddf hon yn diwygio'n bennaf Ddeddf Tai 1996 mewn perthynas â digartrefedd. Mae hefyd yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol ac eraill mewn perthynas â fformiwleiddio a chyhoeddi strategaethau digartrefedd lleol.

Deddf Llywodraeth Leol 2003

19. Mae adran 87 o'r Ddeddf hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tai Lleol gyflwyno Strategaethau Tai Lleol. Mae'r pŵer hwn wedi ei ddefnyddio wrth ddatblygu Datganiadau ar Gyflenwi Tai Fforddiadwy yng Nghymru.. Mae adran 88 yn yr un modd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol bod Cynlluniau Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu cyflwyno; mae'r rhain wedi eu defnyddio gan Lywodraeth y Cynulliad i graffu ar gynllunio lleol er mwyn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer stoc tai cymdeithasol.

Deddf Tai 2004

20. Mae adran 225 o'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgymryd ag asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr o fewn ardal yr awdurdod ac i gynllunio ar gyfer anghenion a nodwyd. Mae adran 226 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch y ddyletswydd.

Y rhesymeg

21. Prif bwrpas y GCD drafft yw darparu cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â dwy brif thema, sef tai cymdeithasol a diwallu anghenion pobl hyglwyf am dai. Meysydd polisi yw'r rhain sydd wedi eu datganoli ac y mae gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd swyddogaethau gweithredol eang ynddynt ond nad oes gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol cyfatebol ynddynt. Bydd cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi Gweinidogion Cymru, Aelodau Cynulliad neu Bwyllgorau Cynulliad i gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol gynigion deddfwriaethol sy'n adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau penodol Cymru.

22. Bydd y GCD yn cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i wireddu ei uchelgais, a geir yn *Cymru'n Un*, Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2007-11, sef sicrhau bod yr angen am dai yn cael ei ddiwallu a bod gwell mynediad at dai. Yn benodol, *roedd Cymru'n Un* yn cynnwys tri ymrwymiad cysylltiedig:

    - i atal dros dro yr Hawl i Brynu mewn ardaloedd sydd o dan bwysau oherwydd prinder tai;
    - i fynd i'r afael â digartrefedd;
    - i ddarparu ar gyfer awdurdodau lleol y pwerau i fynd i'r afael ag effaith ail gartrefi mewn ardaloedd sydd dan bwysau oherwydd prinder tai.

23. Cefnogir amcanion *Cymru'n Un* gan ddogfennau strategol allweddol yn y meysydd polisi, fel y nodir ym mharagraffau 5-9. Bydd y GCD yn cynorthwyo Llywodraeth y Cynulliad i helpu i wireddu ymrwymiadau o fewn y strategaethau hyn.

24. Nodir beth yw'r ymagwedd gyffredinol tuag at bolisi tai yn y Strategaeth Dai Genedlaethol ddrafft. Mae'r strategaeth yn nodi egwyddorion arweiniol mewn chwe maes:

    - Darparu'r cymysgedd iawn o dai: datblygu'r farchnad dai, a chwalu'r ffiniau sy'n rhwystro pobl rhag symud rhwng tai cymdeithasol, rhentu preifat, perchentyaeth rhannol a pherchen-feddiannaeth lawn.
    - Defnyddio tai'n gatalydd i wella bywydau: pan fo angen hynny, anelu at gynnig hyfforddiant, cyngor ariannol, gofal iechyd a chymorth personol ynghyd â darparu tai.
    - Grymuso cymunedau: sicrhau bod buddsoddiadau tai'n gwella lleoedd, yn cynorthwyo swyddi a sgiliau lleol ac yn cryfhau cydlyniad cymunedol.
    - Lleihau i'r eithaf yr ôl troed ecolegol: gwella perfformiad holl dai Cymru o ran ynni a pherfformiad amgylcheddol .
    - Sicrhau gwasanaethau gwell: sicrhau bod rheoleiddio a rheoli tai yn darparu safonau uchel o wasanaeth yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.
    - Cydwireddu uchelgais: cynhyrchu gwaith ar bolisi tai yn y dyfodol ar y cyd gan bawb sydd â buddiant mewn tai.

25. Cefnogir y Strategaeth Dai Genedlaethol gan ddogfennau polisi strategol eraill gan gynnwys y rhai ar weithgareddau cymorth sy'n gysylltiedig â thai ac ar Sipsiwn a Theithwyr. Yn benodol, nod y rhaglen waith sy'n deillio o Adolygiad Essex ar dai fforddiadwy (y cyfeirir ato ym mharagraff 6), ymhlith pethau eraill, yw cyflwyno rhaglen reoleiddio newydd ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol. Mae Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd Llywodraeth y Cynulliad (y cyfeirir ato ym mharagraff 7), ymhlith pethau eraill, yn argymell adolygu'r fframwaith statudol ar gyfer polisi digartrefedd yng Nghymru, gyda'r nod o sicrhau darpariaeth gynhwysfawr o ran gwasanaethau i bobl ddigartref.

26. Bydd cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnig deddfwriaeth yn unol ag agenda bolisi ddiffiniedig ac arbennig Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fel y nodwyd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU, Trefn Lywodraethu Well i Gymru, a ragflaenodd Ddeddf 2006, tuedda'r pwerau gweithredol a ddatganolwyd eisoes i Weinidogion Cymru fod yn dameidiog wrth eu natur. Dyma'n sicr yw'r achos mewn perthynas â thai, a byddai cymhwysedd deddfwriaethol yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol fod â rhan yn y gwaith o benderfynu'r fframwaith deddfwriaethol mewn perthynas â thai cymdeithasol ac â diwallu anghenion pobl hyglwyf am dai. Dyma'r fframwaith y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru weithredu oddi tano. Byddai hyn, yn ei dro, yn galluogi Gweinidogion Cymru i fabwysiadu ymagwedd fwy cyfannaidd at fynd i'r afael â heriau allweddol mewn perthynas â thai cymdeithasol. Ceir ym mharagraffau 27-38 isod enghreifftiau o sut y gellid mabwysiadu ymagwedd fwy cynhwysfawr at ddatblygu a gwella polisi o ganlyniad i roi cymhwysedd deddfwriaethol.

27. Er enghraifft, mewn perthynas â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC), mae gan Weinidogion Cymru eisoes swyddogaethau gweithredol ond mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn cyfyngu ar y pwerau gorfodi sydd ar gael iddynt. Fel y gwelir yn yr enghraifft hon, gall Gweinidogion Cymru gomisiynu ymchwiliad statudol i berfformiad LCC, ond ni all gyflwyno Hysbysiad Gorfodi sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol gymryd camau unioni, neu sy'n ei gwneud yn ofynnol i iawndal gael ei dalu i denantiaid. Byddai'r cymhwysedd arfaethedig yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ystyried deddfwriaeth i roi ar waith raglen reoleiddio gynhwysfawr wedi ei datblygu ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r sector tai yng Nghymru. Gallai'r Cynulliad Cenedlaethol, ymhlith pethau eraill, fynd i'r afael â'r ffaith bod pwerau Gweinidogion Cymru'n ymwneud dim ond â landlordiaid sydd wedi eu cofrestru o dan Ddeddf Tai 1996, ac nid ag awdurdodau lleol neu ag unrhyw gyrff perthnasol eraill. Mae'r sefyllfa bresennol yn gwrthgyferbynnu â'r pwerau a ddarperir ar gyfer y rheoleiddwyr perthnasol yn Lloegr a'r Alban - y Tenants Services Authority a'r Scottish Housing Regulator. Bydd y cymhwysedd arfaethedig yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried deddfu mewn perthynas â darparwyr tai cymdeithasol neu gyrff eraill a chanddynt swyddogaethau sy'n ymwneud â thai cymdeithasol.

28. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol hefyd yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i wneud cynigion deddfwriaethol er mwyn diwygio tenantiaethau diogel a sicr. O dan ddeddfwriaeth bresennol, tenantiaid diogel o dan Ddeddf Tai 1985 yw tenantiaid awdurdodau lleol fel arfer, ond tenantiaid sicr o dan Ddeddf Tai 1988 yw tenantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel arfer. Ar 31 Mawrth 2008, roedd tua 132,000 o anheddau'n cael eu rhentu oddi wrth awdurdodau lleol, ac 89,000 o anheddau'n cael eu rhentu oddi wrth Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Nid yw'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ffurf ar denantiaeth yn fawr i'r mwyafrif o denantiaid er bod gwahaniaethau o ran eu hawliau statudol, gan gynnwys mewn cysylltiad â'r Hawl i Brynu, yn ogystal ag o ran rhai seiliau ar gyfer adfeddiannu. O ganlyniad, os cynigir trosglwyddo stoc tai o berchenogaeth awdurdod lleol i berchenogaeth Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (er mwyn ariannu gwelliannau o ran ansawdd) mae tenantiaid wedi bod yn pryderu ynghylch symud o un math ar denantiaeth i fath arall.

29. Yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, ‘Renting Homes’ (2006), argymhellwyd system wedi ei symleiddio o gontractau diogel a safonol yn lle'r lliaws presennol o fathau ar denantiaethau a thrwyddedau. Byddai cam o'r fath yn torri'r cysylltiad presennol â statws y landlord ond yn darparu ar yr un pryd ddiogelwch deiliadaeth sylweddol wedi ei amddiffyn gan statud. Ym marn y Comisiwn nid oes cyfiawnhad ymarferol dros y gwahaniaeth cyfredol a byddai un math ar ddeiliadaeth yn darparu llawer o fanteision ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol. Byddai'r rhain yn cynnwys ei gwneud yn haws deall yr hawliau, symleiddio hawliau olyniaeth a mynd i'r afael â phryderon tenantiaid ynghylch trosglwyddo stoc tai o berchenogaeth awdurdod lleol i berchenogaeth Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, rhywbeth sydd ar hyn o bryd yn golygu newid tenantiaeth.

30. Yn ychwanegol at yr uchod, argymhellwyd hefyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith bod dull amddiffyn defnyddwyr yn cael ei lunio, ar ffurf datganiad clir o hawliau ac ymrwymiadau i’w gynnwys mewn cytundebau enghreifftiol. Awgrymwyd hefyd fod darpariaethau deiliadaeth penodol yn cael eu creu ar gyfer tai a gynorthwyir yn y sector statudol a gwirfoddol a fyddai'n caniatáu bod meddiant yn haws yng nghyfnod cynnar tenantiaeth a bod opsiynau mwy hyblyg ar gael pan fo unigolyn yn risg corfforol i denantiaid eraill neu i staff. Yn y Strategaeth Dai Genedlaethol ddrafft ceir ymrwymiad i adolygu cyfraith deiliadaeth gyda'r nod o “sefydlu fframwaith hawliau a chyfrifoldebau mwy cyson rhwng landlordiaid a thenantiaid”. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i adolygu fframwaith deddfwriaethol cyfraith deiliadaeth ar gyfer tai cymdeithasol.

31. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol pellach yn galluogi datblygu deddfwriaeth gydlynol er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad fwrw ymlaen â'i pholisi ar gyfer cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Mae cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei ddarparu ar gyfer y rhai ac arnynt angen help i gynnal a chadw eu cartref neu i ddatblygu'r gallu i feddiannu eu cartref. Ar

hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru'n defnyddio pwerau cyffredinol sy'n gysylltiedig â lles i ddarparu grantiau, drwy gyfrwng y rhaglenni Cefnogi Pobl, ar gyfer awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i sicrhau bod y math hwn ar gymorth yn cael ei ddarparu. Darperir cymorth er mwyn galluogi pobl i fyw'n annibynnol neu'n fwy annibynnol nag y byddent fel arall ac er mwyn cadw tenantiaeth. Datganwyd yn y ddogfen ymgynghori, Cefnogi Pobl, y cyfeirir ati ym mharagraff 8, bod ffocws cyfeiriad rhaglenni Cefnogi Pobl yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Defnyddio cymorth fel rhan o ystod o ymagweddau arloesol tuag at ofal cymdeithasol.
- Defnyddio'r rhaglen i fynd i'r afael ag anghenion gwaelodol unigolion, drwy ddarparu'r sefydlogrwydd a all fod yn sail i ymyriadau llwyddiannus cydgysylltiedig.
- Mynd i'r afael â rhesymau gwaelodol digartrefedd mynych.
- Peri bod gwaith darparwyr yn y sector yn waith a wneir gan broffesiynolion a dwysáu ffocws strategol y gwaith comisiynu.
- Hyrwyddo byw'n annibynnol fel gwerth creiddiol.

32. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried cynnig newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol i sicrhau bod cymorth o'r safon a ddymunir y cael ei ddarparu'n gyson ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, ac yn unol â'r ffocws a nodir uchod. Byddai cymhwysedd yn y maes hwn yn ategu'r cymhwysedd deddfwriaethol sy'n ymwneud â rheoleiddio, digartrefedd a thenantiaethau tai cymdeithasol.

33. Mewn perthynas â darparu tai cymdeithasol, gallai cymhwysedd deddfwriaethol alluogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu a chyflwyno cynigion deddfwriaethol newydd ar gyfer ffurfiau newydd ar feddiannu tai cymdeithasol. Amlygir yn y Strategaeth Dai Genedlaethol ddrafft bwysigrwydd datblygu tai canolradd, hynny yw, tai y mae eu prisiau neu'r rhent a godir arnynt yn is na phrisiau tai neu rent ar y farchnad agored ond yn uwch na lefelau rhent cymdeithasol. Mae cynlluniau perchentyaeth cost isel, pan nad yw'r holl ecwiti yn yr eiddo yn nwylo'r perchenogion, yn fodd allweddol o ddatblygu tai canolradd o'r fath. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu yn ôl yr angen ynghylch cynlluniau perchentyaeth cost isel yn y dyfodol gan sicrhau cydlyniad rhwng y maes a meysydd eraill o ran polisi tai cymdeithasol. Gall hyn gynnwys trefniadau mwy arloesol, megis perchentyaeth cydfuddiannol pan fo perchenogaeth asedau tai adeiledig yn gydweithredol, a bod perchenogaeth y tir ar wahân.

34. Mewn perthynas â gwarediadau tir sy'n cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion darparu tai cymdeithasol, byddai cymhwysedd deddfwriaethol yn darparu hyblygrwydd llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddiffinio trefniadau ar gyfer Cymru yn yr hyn sydd yn faes datganoledig. Ers cyflwyno'r cynllun Hawl i Brynu (gan gynnwys cynlluniau Hawl i Brynu,

Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu a Gadwyd) mae dros 140,000 o anheddau wedi eu prynu gan denantiaid yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i bron hanner y stoc tai cymdeithasol gwreiddiol (heb gynnwys unrhyw anheddau a adeiledir o'r newydd). Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol y nifer o dai cymdeithasol sydd ar gael i'w rhentu gan bobl y mae arnynt angen tai.

35. Mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi defnyddio eu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i feithrin dull neilltuol o weithredu mewn cysylltiad â'r cynllun Hawl i Brynu, ac wedi ei deilwra ar gyfer amgylchiadau penodol Cymru sy'n wahanol mewn ffyrdd allweddol i'r amgylchiadau yn Lloegr. Er enghraifft, mae is-ddeddfwriaeth wedi ei gwneud:
a. i leihau uchafswm y gostyngiad o £24,000 i £16,000 drwy Gymru benbaladr, a
b. i estyn yn sylweddol nifer yr ardaloedd gwledig lle y caniateir i gyfyngiadau gael eu rhoi ar ailwerthu eiddo a oedd gynt yn eiddo Hawl i Brynu.

36. Amcanion polisi Llywodraeth y Cynulliad yw cefnogi dyheadau tenantiaid tai cymdeithasol i fod yn berchen ar eu cartrefi, gan gydnabod y gall fod amrywiaeth eang o ffyrdd o wneud hynny, ond mae'n amcan ganddi hefyd i sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn darparu cyfleuster ar gyfer cadw stoc tai cymdeithasol o dan amgylchiadau priodol**.**

37. Byddai'r GCD yn darparu ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd mewn perthynas â gwarediadau tir a ddelir neu a ddefnyddir at ddibenion darparu tai cymdeithasol, gan gynnwys pob agwedd ar y cynllun Hawl i Brynu, yr Hawl i Brynu a Gadwyd a'r cynllun Hawl i Gaffael. Byddai hyn yn rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol y rôl o benderfynu trefniadau deddfwriaethol ar gyfer Cymru mewn maes sydd eisoes yn faes ac ynddo bwerau gweithredol wedi eu datganoli, yn unol ag egwyddorion y setliad datganoli a'r rhesymeg a geir ym mharagraff 26 o'r Memorandwm hwn. Mae cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y maes polisi cyfan yn mynd i'r afael â natur dameidiog pwerau gweithredol, yn gwneud y setliad datganoli'n fwy clir ac yn sicrhau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol yr hyblygrwydd i wella trefniadau cyfredol. Er enghraifft, byddai cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol, pe byddai'n dymuno hynny, i roi yn lle'r cynllun Hawl i Brynu cyfredol gynlluniau gwell wedi eu diweddaru i gynorthwyo perchentyaeth. Mae hefyd yn sicrhau y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru fabwysiadu dull mwy cydlynus o ddatblygu polisi yn unol â'r amcanion polisi a nodir uchod.

38. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol hefyd yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i gynnig i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfwriaeth sy'n cefnogi Strategaeth Ddigartrefedd Llywodraeth y Cynulliad. Byddai'r cymhwysedd yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu mewn perthynas, er enghraifft, ag atal digartrefedd, â dyletswyddau cymdeithasau tai, â diffinio digartrefedd, â bwriadusrwydd, â chysylltiad lleol, â chyflawni dyletswyddau, ac â chyfrifoldebau cynllunio strategol. Byddai'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd bresennol yn cyfyngu pwerau Gweinidogion

Cymru i ddiwygio rheoleiddiol tameidiog tra byddai unrhyw gynigion deddfwriaethol o dan gymhwysedd arfaethedig y GCD hwn yn ddarostyngedig i waith craffu llawn a manwl gan y Cynulliad Cenedlaethol.

39. Yn ychwanegol at alluogi Gweinidogion Cymru i fabwysiadu dull mwy cynhwysfawr o ddatblygu a gwella polisi, fel y nodir ym mharagraffau 26-38, byddai cymhwysedd deddfwriaethol hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â chyfyngiadau deddfwriaethol yn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Mae cyfyngiadau deddfwriaethol o'r fath yn llesteirio Llywodraeth y Cynulliad o ran gallu bwrw ymlaen â'i pholisi yn y cyfeiriad a nodir yn ei strategaethau ar gyfer tai. Er mwyn goresgyn y cyfyngiadau hyn, byddai ar y Cynulliad Cenedlaethol angen cymhwysedd er mwyn datblygu Mesurau Cynulliad priodol. Ceir enghreifftiau penodol o gyfyngiadau deddfwriaethol ym mharagraffau 40-43 isod.

40. Er enghraifft, mae Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 yn nodi'r fframwaith statudol y mae'n rhaid i awdurdodau tai lleol gydymffurfio ag ef wrth ddyrannu tai cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys dyrannu tenantiaethau diogel tai cyngor ac enwebiadau o ran tenantiaethau sicr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. O dan Ddeddf 1996, mae gan Weinidogion Cymru bwerau gweithredol sylweddol mewn perthynas â dyraniadau tai cymdeithasol, gan gynnwys rhai pwerau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, nid oes gan Weinidogion Cymru'r pŵer i ddiwygio neu ddiddymu'r ffactorau y caniateir i awdurdodau lleol roi sylw iddynt pan fyddant yn penderfynu blaenoriaethau o ran dyrannu tai'n llety (fel y nodir yn adran 167(2A) o Ddeddf 1996). Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad ag adran 167(2), sy'n ymdrin â'r rhai ddylai gael ffafriaeth resymol mewn cynlluniau dyrannu, pan fo gan Weinidogion Cymru bwerau llawn i ychwanegu, diwygio neu ddiddymu, a phan allent gael gwared ar gategorïau o ffafriaeth resymol yn llwyr. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw i ddyraniadau tai cymdeithasol ochr yn ochr â materion sy'n perthyn yn agos megis digartrefedd, deiliadaeth a rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

41. Byddai'r cymhwysedd y gwneir cais amdano hefyd yn dileu cyfyngiadau deddfwriaethol ar fwrw ymlaen â'r Strategaeth Sipsiwn a Theithwyr. Mae diffyg safleoedd priodol a darpariaeth annigonol yn cael effaith sy'n sylweddol andwyol ar fywydau Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r cysylltiadau rhwng diffyg llety ac anghyfartaleddau eraill a ddioddefir gan y gymuned Sipsiwn a Theithwyr wedi eu hen gydnabod. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi ar waith fframwaith polisi a chymelliadau ariannol i helpu awdurdodau lleol i gyflenwi safleoedd priodol ond os na fyddant yn cyflenwi yn unol â gofyn sydd wedi ei nodi'n glir, fe ddichon y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio pwerau, er enghraifft, i allu cyfarwyddo awdurdodau lleol i wneud darpariaeth briodol. Mae adran 225 a 226 o Ddeddf Tai 2004 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgymryd ag asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, ac i gynllunio ar gyfer yr anghenion a nodwyd. Mae Cylchlythyr Cynllunio gan

Lywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol i ddynodi lleoliadau addas yn eu cynlluniau datblygu lleol ar gyfer safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, nid yw deddfwriaeth bresennol yn mynd mor bell â galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflenwi safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr.

42. Mae cyfyngiad wedi ei nodi hefyd mewn perthynas â pholisi'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi neu gartrefi a adewir yn wag. Os bydd cyfran uchel o gartrefi'n cael eu gadael yn wag am gyfran sylweddol o'r flwyddyn gall effeithio'n andwyol ar wead cymuned, er enghraifft mewn perthynas â hyfywedd gwasanaethau penodol megis ysgolion, swyddfeydd post a siopau. Awgrymodd y dystiolaeth sy'n deillio o gyfrifiad 2001 fod ail gartrefi'n effeithio'n arbennig ar rai ardaloedd yn lleol – roedd rhwng 10% ac 20% o'r stoc tai mewn 27 o wardiau yn ail gartrefi neu'n dai gwyliau.

43. Un ffordd bosibl o leddfu effaith anheddau o'r fath mewn ardaloedd penodol yw caniatáu i awdurdodau lleol amrywio'r dreth gyngor sy'n daladwy. Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r Dreth Gyngor yw'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae pwerau cysylltiedig â'r Dreth Gyngor wedi eu datganoli ar y cyfan; mae gan Weinidogion Cymru bwerau sylweddol i wneud rheoliadau. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau sy'n galluogi awdurdodau lleol yn ôl eu disgresiwn i beidio â chynnig gostyngiadau ar y Dreth Gyngor ar rai dosbarthau o anheddau nad unig neu brif breswylfa unigolyn mohonynt. Fodd bynnag, nid oes gan Weinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw bŵer i ganiatáu i awdurdodau lleol godi Treth Gyngor ychwanegol mewn cysylltiad ag anheddau o'r fath. Byddai cymhwysedd yn y maes hwn yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw i unrhyw Fesurau Cynulliad arfaethedig ynghylch anheddau nad ydynt yn brif breswylfod unigolyn.

44. I grynhoi, mae cydberthynas glòs rhwng y meysydd sy'n cael eu cwmpasu yn y GCD drafft hwn. Ni ellir gwahanu'r cyfle i ddatblygu fframwaith rheoleiddio newydd oddi wrth y gwaith o ddiwygio natur tenantiaethau diogel a thenantiaethau sicr; mae'r cynlluniau Hawl i Brynu, Hawl i Brynu a Gadwyd a Hawl i Gaffael yn gynhenid i'r tenantiaethau hyn. Mae'r angen am ddarparu tai fforddiadwy a phriodol i'r rhai y mae arnynt eu hangen yn cwmpasu camau gweithredu ar ddigartrefedd, dyraniadau tai, y rhai y mae arnynt angen cymorth mewn cysylltiad â thai, safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ac ail gartrefi neu gartrefi a adawyd yn wag. Mae diffyg cymhwysedd deddfwriaethol, a'r ddibyniaeth o ganlyniad ar bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru'n llesteirio camau o'r fath. Bydd cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn galluogi Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn ac i gynnig deddfwriaeth i helpu i roi polisi tai trosfwaol Llywodraeth y Cynulliad ar waith.

Y cwmpas

45. Cynigir bod saith Mater yn cael eu mewnosod ym Maes 11: (tai) ac un Mater ym Maes 12: (llywodraeth leol) o dan Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006.

46. Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn drafft yn mewnosod Materion 11.2 i 11.8 ym Maes 11, ac mae Erthygl 3 yn mewnosod Mater 12.18 ym Maes 12.

47. Bydd Gorchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) (Diogelwch Tân) 2010, os caiff ei gymeradwyo, yn mewnosod Mater 11.1 ym Maes 11.

48. Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio pob Mater newydd yn ei dro.

49. Byddai Mater 11.2 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â darparwyr tai cymdeithasol. Caiff y rhain eu diffinio fel naill ai awdurdodau lleol neu gyrff eraill sy'n darparu tai ar gyfer pobl nad yw'r farchnad dai fasnachol yn diwallu eu hanghenion yn ddigon da. Mae'r geiriad hwn yn cymhwyso gofyniad cyffelyb i'r gofyniad a geir yn adrannau 69 a 70 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008, gofyniad y mae'n rhaid ei fodloni mewn cysylltiad â llety cost isel ar rent neu lety sy'n gysylltiedig â pherchentyaeth cost isel er mwyn iddo ddod o fewn y diffiniad o “social housing” at ddibenion Rhan 2 o’r Ddeddf honno. Fodd bynnag, nid yw'r diffiniad yn y Gorchymyn yn hepgor bod cyrff o'r fath yn cael eu trin fel “darparwyr tai cymdeithasol” ar y sail eu bod yn darparu “tai eraill”. Mae'r mater hwn hefyd yn ymwneud â'r swyddogaeth o ddyrannu tai cymdeithasol gan ddarparwyr tai cymdeithasol, yn unol â'r diffiniad cyfatebol yn yr adran ddehongli.

50. Byddai Mater 11.3 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â chyrff tai cymdeithasol perthnasol. Mae'r mater hwn yn cael ei gynnwys er mwyn darparu cymhwysedd dros gyrff a chanddynt swyddogaethau mewn perthynas â thai cymdeithasol, ond nad ydynt o reidrwydd yn ddarparwyr tai cymdeithasol. Byddai Gweinidogion Cymru'n enghraifft o gorff o'r fath.

51. Bydd Materion 11.2 ac 11.3, ar y cyd, yn rhoi felly gymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu mewn cysylltiad â rheoleiddio darparwyr tai cymdeithasol a chyrff tai cymdeithasol perthnasol hefyd, ac i ddeddfu mewn cysylltiad â dyrannu tai cymdeithasol.

52. Mater 11.4 yn ymwneud â threfniadau deiliadaeth ar gyfer tai cymdeithasol ar rent a byddai'n cynnwys y rhaglen tenantiaethau diogel a sicr ar gyfer tenantiaid awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y drefn honno. Ni fyddai'r cymhwysedd a gâi ei roi gan y mater hwn yn ymestyn i denantiaethau sector preifat y tu allan i faes tai cymdeithasol.

Byddai'r mater hefyd yn rhoi i'r Cynulliad gymhwysedd mewn perthynas â threfniadau eraill y mae tai cymdeithasol yn cael eu darparu oddi tanynt. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i roi sylw i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud er enghraifft â threfniadau rhanberchenogaeth neu berchentyaeth cydfuddiannol.

53. Mae Mater 11.5 yn ymwneud â gwarediadau tir a byddai'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â'r Hawl i Brynu, yr Hawl i Brynu a Gadwyd neu'r Hawl i Gaffael ar gyfer tenantiaid awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae paragraff (a) yn ymwneud â thai cymdeithasol ac mae paragraff (b) yn ymwneud â gwarediadau tir sy'n cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion tai cymdeithasol, neu mewn cysylltiad â thai cymdeithasol. Mae paragraff (c) yn nodi'r deddfiadau y caniateir i denantiaid ddal yr Hawl i Brynu, yr Hawl i Brynu a Gadwyd neu'r Hawl i Gaffael oddi tanynt ac mae'n cael ei gynnwys er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn gallu deddfu mewn perthynas â phob amgylchiad a allai roi bodolaeth i'r hawliau hynny, p'un a yw'r tir yn bodloni'r diffiniad o “tai cymdeithasol” yn y Gorchymyn ai peidio. Gallai hyn gwmpasu, er enghraifft, warediadau o dan y cynlluniau Hawl i Brynu neu Hawl i Gaffael eiddo sy'n cael ei ddal gan gyrff sy'n darparu tai o dan denantiaethau diogel a sicr ond nad ydynt yn ddarparwyr tai cymdeithasol, ac sydd felly'n dod y tu allan i baragraffau (a) neu (b) o'r mater hwn. Mae'r cymhwysedd a roddir gan y mater hwn yn cynnwys trosglwyddiadau gwirfoddol gan gynnwys trosglwyddiadau o stoc tai.

54. Mae Mater 11.6 yn ymwneud â chyflenwi cymorth sy'n gysylltiedig â thai i'r rhai ac arnynt angen help i gynnal eu cartref neu i ddatblygu'r gallu i feddiannu eu cartref. Byddai'r cymhwysedd yn cwmpasu, er enghraifft, sefyllfaoedd pan gynigir cymorth i bobl hŷn sy'n byw mewn llety gwarchod, i'r sawl sy'n dianc rhag cam-drin domestig, neu i bobl ifanc sy'n gadael y system gofal. Mae'r mater hwn yn cynnwys cyngor a chymorth nad yw'n gymorth ariannol i bobl mewn cysylltiad â sgiliau sy'n berthnasol i'w gallu i fyw'n annibynnol mewn tai, pobl y gallai fel arall fod risg y byddent yn colli eu cartref, neu i bobl i’w galluogi i fyw mewn llety mwy annibynnol nag y gallent fyw ynddo fel arall.

55. Byddai Mater 11.7 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol dros safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Diffinnir yr ymadrodd "safleoedd carafannau" yn y Gorchymyn mewn ffordd gyffelyb i'r ffordd y diffinnir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yn adran 1(4) o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960. Bwriadol yw peidio â diffinio’r termau “Sipsiwn a Theithwyr” a “carafán” yn y gorchymyn gan mai’r bwriad yw i’r geiriau ddwyn eu hystyr arferol. Defnyddir “caravan” eisoes, heb ei ddiffinio ymhellach, yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006. Byddai’r mater hwn yn galluogi’r Cynulliad Cenedlaethol i ddiffinio’r termau hyn o fewn Mesurau dilynol at ddibenion penodol.

56. Byddai Mater 11.8 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch digartrefedd. Ni ddiffinnir “digartrefedd” yn y

Gorchymyn gan mai'r bwriad yw i'r gair ddwyn ei ystyr arferol. Defnyddir y term cyfatebol Saesneg heb ei ddiffinio ymhellach, yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006. Byddai'r mater hwn yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddiffinio "digartrefedd" o fewn Mesurau dilynol at ddibenion penodol.

57. Byddai erthygl 3 o'r Gorchymyn drafft yn mewnosod Mater 12.18 ym Maes 12 (Llywodraeth Leol). Byddai hyn yn galluogi'r Cynulliad i basio deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Dreth Gyngor a godir ar anheddau nad prif breswylfa unigolyn mohonynt.

Eithriadau i'r cymhwysedd

58. Nid yw'r GCD drafft yn nodi unrhyw eithriadau i'r cymhwysedd y byddai'n ei roi. Fodd bynnag, byddai angen i'r cymhwysedd hwnnw gael ei ystyried ochr yn ochr â'r eithriadau cyffredinol a geir ym mharagraff A1 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 (a fewnosodwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol)(Eithriadau i Faterion) 2009). Mae hyn yn golygu bod nawdd cymdeithasol, gan gynnwys Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor, yn eithriad sy'n gymwys i bob mater, gan gynnwys y rhai yn y GCD arfaethedig hwn.

Newidiadau i'r GCD wedi craffu cyn deddfu

59. Ymgymerwyd â chraffu cyn deddfu ar y Gorchymyn arfaethedig gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi.

60. Cyhoeddodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ei adroddiad ar 29 Ionawr a chefnogodd egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig. Adroddodd y Pwyllgor Materion Cymreig ar 3 Chwefror ac yn yr un modd rhoddodd groeso i'r GCD arfaethedig.

61. Cafodd y GCD dderbyniad cadarnhaol gan randdeiliaid a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor. Rhoddwyd ystyriaeth i estyn cwmpas y Gorchymyn drafft i gwmpasu'r sector rhentu preifat a "Hawl i Brynu Cymunedol", fel yr awgrymwyd gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ynghylch y sector rhentu preifat, gan gynnwys ynghylch cofrestr genedlaethol o landlordiaid sector preifat, ac ynghylch rheoleiddio'n orfodol asiantau gosod a rheoli eiddo. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried opsiynau ar gyfer deddfwriaeth i'r dyfodol yn sgil yr ymgynghoriad. Ar y cam hwn, nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn meddu ar y dystiolaeth i fod yn sail i gynnwys Hawl i Brynu Cymunedol o fewn cwmpas Mater 11.5 ac nid yw cwmpas y Gorchymyn drafft wedi ei newid ar hyn o bryd.

62. Yng ngoleuni craffu gofalus Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 a'r Pwyllgor Materion Cymreig, eglurhawyd rhywfaint ar y Memorandwm Esboniadol Eglurhawyd ystyron "Digartrefedd", "Sipsiwn a Theithwyr" a "carafán" fel y'u defnyddir yn y GCD ymhellach ym mharagraffau 55 a 56 o'r Memorandwm hwn.

63. Argymhellodd y Pwyllgor Materion Cymreig y dylai teitlau GCDau adlewyrchu'n gywirach gynnwys y materion sydd ynddynt. Mae'r Pwyllgor felly'n argymell newid teitl y GCD hwn. Daeth Llywodraeth y Cynulliad i'r casgliad y dylai teitl GCD ddilyn confensiwn drafftio safonol a chynnwys enw'r maes neu'r meysydd perthnasol a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 y byddai'r GCD yn mewnosod materion ynddo neu ynddynt. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ystyried cwmpas eang y GCD, a byddai angen teitl a fyddai, o bosibl, yn hirwyntog petai gofyn iddo adlewyrchu'r holl faterion a gwmpesir. Felly ni newidiwyd y teitl.

64. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylid adolygu'r drafftio ar faterion sy'n ymwneud â thai cymdeithasol i sicrhau eu bod mor eglur ag sydd modd. Yn benodol, a fyddai modd mynegi'r materion yn y GCD arfaethedig sy'n ymwneud â thai cymdeithasol yn symlach mewn mater unigol yn dynodi "tai cymdeithasol". Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad ystyriaeth ofalus i'r argymhelliad hwn, gan ddod i'r casgliad fod y cymhwysedd a roddir yn cael ei fynegi orau yn y materion fel y'u gosodir yn y GCD. Wrth ddrafftio'r GCD, y dull fu osgoi cynnwys eithriadau ac "eithriadau i eithriadau" i eithriadau os oedd modd o gwbl o wneud hynny. Byddai mynegi'r cymhwysedd yn fwy cryno, er enghraifft drwy ddefnyddio'r term "tai cymdeithasol", yn ei gwneud yn ofynnol mewnosod eithriadau ac eithriadau i eithriadau tebygol i'r eithriadau hynny, megis rhai ar gyfer agweddau penodol ar gyllid tai cymdeithasol. Daethpwyd i'r casgliad y dylai'r materion aros yn y GCD fel y'u drafftiwyd, (ond gyda pheth eglurhau ar ddiffiniadau – gweler paragraff 65).

65. Argymhellodd y Pwyllgor Materion Cymreig y dylid rhoi priflythrennau i'r cyfeiriad at "Sipsiwn a Theithwyr". Gwnaed y newid hwn.

66. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylid newid y diffiniad o "darparydd tai cymdeithasol" i osgoi bwrw unrhyw amheuaeth ar y dehongliad fod swyddogaethau darparydd o'r fath (ac eithrio awdurdod lleol) yn cynnwys darparu tai a dyrannu tai. Roedd y Pwyllgor o'r farn fod modd i'r gwahaniaeth rhwng paragraff (b) o'r diffiniad hwnnw, nad oedd yn cyfeirio'n benodol at "dyrannu" a'r rhan olaf o'r diffiniad hwnnw, oedd yn gwneud hynny, arwain at amwysedd. A derbyn mai'r bwriad yw i'r cymhwysedd fod yn gymwys i ddarparu ac i ddyrannu, fel y dywedir yn y Memorandwm hwn, newidiwyd paragraff (b) o'r diffiniad hwn felly er mwyn adlewyrchu hyn yn glir. Wrth newid y diffiniad hwn yng ngoleuni argymhelliad y Pwyllgor, daethpwyd i'r farn y gellid drafftio rhan olaf y diffiniad mewn dull symlach, heb altro ei ystyr. Gwnaed newid cyffelyb

hefyd i ran olaf y diffiniad o “corff tai cymdeithasol perthnasol” oedd wedi’i ddrafftio yn yr un modd.

67. Daeth Pwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ’r Arglwyddi i’r casgliad nad oedd y GCD yn codi unrhyw faterion o egwyddor gyfansoddiadol.

Terfynau daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad

68. Byddai'r GCD drafft yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu drwy Fesur Cynulliad o ran Cymru yn unig. Yn ymarferol, byddai hyn yn debygol o olygu y gallai Mesur wneud darpariaeth mewn perthynas ag awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol eraill wedi eu lleoli yng Nghymru, tai wedi eu lleoli yng Nghymru, ac anghenion pobl yng Nghymru am dai. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, fodd bynnag, yn cydnabod y bydd angen, wrth ddatblygu Mesurau yn y dyfodol, ystyried pynciau traws ffiniol(yn ymwneud, er enghraifft, ag anghenion tenantiaid y mae eu landlordiaid wedi’u lleoli dros y ffin). Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gydgysylltu’n glos â Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig yn y dyfodol.

Swyddogaethau Gweinidogion y Goron

69. Yn rhinwedd Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni all Mesur Cynulliad roi unrhyw swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron, na’i gosod arno. Yn rhinwedd Rhannau 2 a 3 o Atodlen 5 , ni chaniateir i'r Cynulliad Cenedlaethol ddileu neu addasu drwy Fesur unrhyw swyddogaethau sy’n perthyn i un o Weinidog y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Er enghraifft, ystyrir Trysorlys ei Mawrhydi'n un o Weinidogion y Goron at y dibenion hyn ac mae ganddo o hyd rai swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth tai a llywodraeth leol sy'n gymwys i Gymru. Byddai cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn ofynnol pe byddid yn cynnig y dylai Mesur addasu neu ddiddymu unrhyw un neu rai o'r swyddogaethau hynny.

Y casgliad

70. Am y rhesymau a amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig y dylai cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei estyn yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn drafft y mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud ag ef.